COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 6 RHAGFYR 2017, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | TH Beedle | N Clarke | P Davies |
| DG Howells | A Hussain | RMI Shaw | RME Stirman |
| G Thomas | MC Voisey | JE Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rachel Keepins | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Joanne Norman | Rheolwr Cyllid |
| Satwant Pryce | Pennaeth Adfywio Datblygu a Eiddo |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |

16. DATGAN BUDD

Datganodd y Cynghorydd T Beedle fudd personol yn eitem 4 ar yr agenda - Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-19 i 2021-22 fel aelod o Gymdeithas Rhandiroedd Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysgrifennydd Rhandiroedd Bronfair, Maesteg.

Datganodd y Cynghorydd G Thomas fudd personol yn eitem 4 ar yr agenda - Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-19 i 2021-22 gan fod ganddo randir ym Mryncethin.

17. Y DIWEDDARAF AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Siaradodd y Swyddog Craffu am eitemau a flaenoriaethwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a oedd yn cynnwys yr eitem nesaf i gael ei dirprwyo i'r Pwyllgor hwn i'w hystyried. Cyflwynodd hefyd restr o eitemau eraill posibl i roi sylwadau arnynt a'u blaenoriaethu. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau eraill i'w hystyried gan ddefnyddio'r ffurflen meini prawf a bennwyd yn flaenorol.

**Casgliadau**

1. Bod y Pwyllgor wedi nodi gwybodaeth ychwanegol yr oedd am ei chael am yr eitem nesaf i gael ei dirprwyo iddo yn y Flaenraglen Waith a'i fod wedi penderfynu gwahodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedau), y Rheolwr Grŵp (Eiddo) a'r Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol a chynrychiolwyr o Gyngor Tref Pencoed ac Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen i fod yn bresennol i'w helpu i ymchwilio i Drosglwyddo Asedau Cymunedol;

2. Bod swyddog o Gyngor Rhondda Cynon Taf yn cael ei wahodd i fod yn bresennol ar gyfer yr eitem ar Dai Gwag. Ystyriodd y Pwyllgor y ffurflen meini

prawf a lenwyd a phenderfynodd ei fod am ychwanegu effaith gyllidebol Carchar y Parc ar y Cyngor at y Flaenraglen Waith;

3. Dylid gofyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol flaenoriaethu 5 eitem o'r Flaenraglen Waith ac y dylid cadw un slot y Pwyllgor yn rhydd am y tro;

18. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2018-19 I 2021-22

Cyflwynodd y Swyddog Craffu adroddiad, gyda'r nod o gyflwyno'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddrafft ar gyfer 2018-19 i 2021-22, a oedd yn nodi blaenoriaethau gwariant y Cyngor, ei brif amcanion buddsoddi a meysydd y gyllideb sydd wedi'u targedu ar gyfer arbedion angenrheidiol. Roedd hefyd yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2018-22 a chyllideb refeniw ddrafft fanwl ar gyfer 2018-19.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedau) y cyd-destun ar gyfer cynigion y gyllideb, a oedd wedi'i osod yn erbyn cefndir o saith mlynedd yn olynol o fesurau caledu a llai a llai o adnoddau. Dywedodd fod cyllidebau wedi cael eu torri 35% - 40% mewn rhai gwasanaethau.

Dywedodd y Pwyllgor nad oedd proses gyllidebu'r Cyngor yn gyson, yn ôl pob golwg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedau) fod y Cyngor yn gweithredu'n gyson ac mai uchelgais y Bwrdd Rheoli Corfforaethol yw dod o hyd i arbedion drwy'r awdurdod cyfan, nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y cyhoedd. Cafwyd trafodaethau gyda'r Cabinet ynghylch torri'r gyllideb ar sail y blaenoriaethau corfforaethol y cytunwyd arnynt leiaf.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o ganran y toriadau yn y gyllideb yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau o gymharu â'r Cyfarwyddiaethau eraill. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet (Cymunedau) fod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau wedi gorfod torri ei chyllideb 6.4% o gymharu â'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd sydd wedi torri 1% yr un o'u cyllidebau. Dywedodd fod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau wedi gorfod torri ei chyllideb dros y saith mlynedd diwethaf a bod hyn yn anghymesur o gymharu â'r Cyfarwyddiaethau eraill. Dywedodd hefyd nad oedd torri'r gyllideb byth yn dderbyniol gan fod llawer o'r toriadau yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn amlwg. Dywedodd y Pennaeth Adfywio, Datblygu a Gwasanaethau Eiddo wrth y Pwyllgor fod meysydd penodol wedi cael eu clustnodi ar gyfer toriadau yn y gyllideb a bod gan y Gyfarwyddiaeth Cymunedau feysydd nad oeddent yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth, o safbwynt corfforaethol. Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd fod cyfanswm o 37% o doriadau wedi'u gwneud i'r gyllideb Adfywio a Datblygu Economaidd.

Dywedodd y Pwyllgor fod y gwasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn amlwg i'r cyhoedd a bod angen i wasanaethau eraill yn yr awdurdod wneud eu cyfran nhw o doriadau yn eu cyllideb. Dywedodd y Pwyllgor ei fod yn pryderu bod toriadau'n cael eu gwneud i ddatblygiad economaidd ar adeg pan ddylai mewnfuddsoddiad gael ei annog er mwyn cynhyrchu refeniw. Roedd y Pwyllgor hefyd yn credu y dylai'r Cyngor ystyried cynyddu taliadau er mwyn creu refeniw drwy fynd ar drywydd cyfleoedd i ddatblygu ac nid drwy werthu asedau. Dywedodd y Pwyllgor fod gan y Cyngor flaenoriaeth

gorfforaethol i gefnogi'r economi leol ac y gallai torri cyllideb y Gyfarwyddiaeth Cymunedau annog pobl i beidio â buddsoddi yn yr ardal.

Aeth y Pwyllgor ati i longyfarch y Gyfarwyddiaeth am greu swydd newydd, sef Swyddog Eiddo Gwag, fydd yn gyfrifol am sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio unwaith eto.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd Cyfarwyddiaethau eraill yn gorfod mynd ati i dorri eu cyllidebau ar yr un raddfa â'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau a dywedodd mai Aelodau fydd yn gallu penderfynu ar y gyllideb, yn y pen draw. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet (Cymunedau) ei bod hi'n anodd iawn darparu gwasanaethau o ganlyniad i'r toriadau yn y gyllideb, ond roedd yn falch o nodi bod y Pwyllgor yn bryderus am hyn ac yn cefnogi'r Gyfarwyddiaeth o ganlyniad i'r gwasanaethau amlwg a ddarperir ganddi. Dywedodd y Pennaeth Adfywio, Datblygu a Gwasanaethau Eiddo wrth y Pwyllgor y byddai awdurdodau lleol gwahanol yn gwneud penderfyniadau gwahanol ynghylch pa wasanaethau i'w diogelu a pha rai i'w torri, ac felly, dros amser, byddai mwy o wahaniaethau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

Credai'r Pwyllgor fod yn rhaid bod modd i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gyfarwyddiaeth Addysg wneud toriadau yn eu cyllideb / arbedion effeithlonrwydd gan mai nhw sydd â'r ddwy gyllideb fwyaf. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedau) pe na bai'r toriadau yn y gyllideb a glustnodwyd ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn cael eu gwneud, y byddai'n rhaid iddynt gael eu torri o faes arall yn yr awdurdod. Cydnabu'r Pwyllgor y byddai toriadau yng nghyllideb yr awdurdod yn cael sgil-effaith ar Gynghorau Tref a Chymuned gan y byddai'n rhaid iddynt gynyddu eu harchebiant yn sgil eu cyfrifoldeb am wasanaethau blaenorol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd y Pwyllgor yn poeni am y pwysau cyllidebol o £500k ar gyfer benthyca digymorth sy'n anfantais i'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau ac na ddylai'r awdurdod fenthyca er mwyn ariannu gwasanaethau. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet (Cymunedau) mai dim ond toriadau i wasanaethau amlwg y byddai'r cyhoedd yn eu gweld. Cytunodd y Pennaeth Adfywio, Datblygu a Gwasanaethau Eiddo fod yr hyn y mae pobl yn ei weld o'u cwmpas yn dylanwadu'n anochel ar ffydd a hyder y cyhoedd yn y Cyngor cyfan.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y ffigur twf yn y contract gwastraff ar gyfer bagiau cynnyrch hylendid amsugnol (AHP) a bod nifer y bobl a oedd yn manteisio ar y gwasanaeth hwn yn fwy na'r nifer a ragfynegwyd. Holodd pam nad oedd hyn wedi'i gynnwys yn y contract newydd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth fod Kier wedi cynnig pris yn seiliedig ar y nifer a oedd wedi tanysgrifio i gael casgliadau AHP. Roedd mwy o bobl wedi cofrestru i gael y gwasanaeth hwn ar unwaith na'r disgwyl ac felly roedd angen cynyddu'r gyllideb. Rhagwelwyd y byddai 4,000 o gwsmeriaid yn cofrestru i gael y gwasanaeth, ond cofrestrodd 8,000 o gwsmeriaid i gael y gwasanaeth AHP yn y 6 mis cyntaf. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y nifer a oedd yn manteisio ar y gwasanaeth yn golygu nad oedd angen y gwasanaeth ar bobl mwyach. Dywedodd y Pwyllgor Gwasanaethau Cymdogaeth fod cwsmeriaid yn cofrestru'n flynyddol ac os nad oeddent yn cofrestru'n flynyddol, na fyddent yn cael y gwasanaeth mwyach.

Gofynnodd y Pwyllgor beth fyddai'n digwydd pe bai'r gwasanaeth hwn yn dod i ben. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor fod gwasanaeth AHP yn un drud ac y gallai'r contract amrywio, ond y byddai hyn yn effeithio ar y targedau ailgylchu. Yn ei farn ef, byddai'n foesegol anghywir terfynu'r gwasanaeth hwn o gofio hefyd y rheol dau fag sydd wedi cael ei chyflwyno ar gyfer gwastraff gweddilliol.

Roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai terfynu'r gwasanaeth AHP ryddhau arian i alluogi toiledau cyhoeddus i barhau ar agor. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet (Cymunedau) fod cyflwyno gwasanaeth casglu AHP wedi bod yn newid sylweddol yn sgil cyflwyno'r rheol dau fag. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor y byddai terfynu'r gwasanaeth AHP yn gam yn ôl.

Mynegodd y Pwyllgor bryder bod diddymu'r cymhorthdal a gaiff gwasanaethau bysiau yn effeithio ar ddatblygiad economaidd a'i fod yn bwysig er mwyn galluogi pobl i gyrraedd y gwaith. Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion y llwybrau bysiau fydd yn cael eu cwtogi ac a ymgynghorwyd ar y cynigion ai peidio. Dywedodd y Pwyllgor y gallai cwmnïau ddarparu trafnidiaeth gan weithio o amgylch amseroedd ysgol a gofynnodd a fyddai Arriva yn ystyried cynnig mwy o drenau ar adegau prysur. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor fod y Gyfarwyddiaeth yn cyflawni nifer o swyddogaethau statudol a bod yn rhaid i wasanaethau fel toiledau cyhoeddus a llwybrau bysiau â chymhorthdal gael eu hystyried fel mesurau arbed posibl gan eu bod yn ddarpariaeth anstatudol. Dywedodd fod ymgynghoriad ar y cynigion yn cael ei baratoi a bod y meini prawf ar gyfer dewis llwybrau lle gellir diddymu'r cymhorthdal yn seiliedig ar ddefnydd ac a oes darparwyr amgen ar gael. Dywedodd wrth y Pwyllgor, mewn achosion blaenorol lle cafodd y cymhorthdal ar lwybrau ei ddiddymu, fod cwmnïau, o bryd i'w gilydd, wedi parhau i weithio ar y llwybr.

Dywedodd y Pennaeth Adfywio, Datblygu a Gwasanaethau Eiddo wrth y Pwyllgor fod £200k o arbedion arfaethedig yn cael eu gwneud o strwythurau rheoli yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau. Nododd y Pwyllgor nad oedd hyn yn wir mewn Cyfarwyddiaethau eraill.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet (Cymunedau) wrth y Pwyllgor y byddai angen rhoi cynlluniau seilwaith cadarn ar waith ar gyfer y prosiect metro sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r Fargen Ddinesig. Roedd angen adolygu hefyd a oedd trafnidiaeth yn cael ei darparu ar lwybrau er mwyn ateb y galw.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod angen i'r toriadau yn y gyllideb gael eu rhannu ar draws y Cyngor cyfan a bod angen i'r arbedion rheoli a gyflwynwyd o fewn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau gael eu hadlewyrchu mewn Cyfarwyddiaethau eraill. Nid oedd y Pwyllgor yn teimlo y dylid cwtogi'r llwybrau bysiau hyd nes bod dealltwriaeth well o'r llwybrau yr oedd y cwmnïau yn bwriadu eu cwtogi. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor y byddai defnydd pobl o'r llwybrau bysiau yn cael ei ystyried cyn diddymu'r cymhorthdal. Byddai'r ymgynghoriad cyhoeddus ar lwybrau bysiau yn dechrau yn dilyn ymgynghoriad ar y cynigion am doiledau cyhoeddus. Ymrwymodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y meini prawf sgorio ar gyfer cymorthdaliadau ar lwybrau bysiau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedau) wrth y Pwyllgor na fyddai'n gweithio, o reidrwydd, i

gwmnïau gyflogi gyrwyr ar adegau prysur yn unig gan y byddai'n rhaid iddynt gyflogi gyrwyr am ddiwrnod cyfan. Gofynnodd y Pwyllgor a ellid rhoi'r llwybrau bysiau y bwriedid tynnu'r cymhorthdal oddi wrthynt allan ar dendr. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor fod y llwybrau wedi bod yn rhan o broses dendro gystadleuol a chadarnhaodd fod swyddogion yn adolygu'r llwybrau sy'n destun cymhorthdal. Gofynnodd y Pwyllgor am gyfle i graffu ar y cynigion ar gyfer diddymu'r cymhorthdal yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad a chyn i'r Cabinet benderfynu ar y mater.

Roedd y Pwyllgor o'r farn na allai gefnogi'r cynnig am dwf gwerth £65,000 ar gyfer yr Ŵyl Ddysgu ac y gellid defnyddio'r arian yn well i gefnogi swyddogaethau'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor, mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, fod y gwariant ar yr Ŵyl Ddysgu yn gyfwerth â threfnu cerbyd grutio ychwanegol.

Cwestiynodd y Pwyllgor effaith y toriad o £40k ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol o ran hwyluso'r broses o drosglwyddo asedau. Dywedodd y Pennaeth Adfywio, Datblygu a Gwasanaethau Eiddo wrth y Pwyllgor fod y toriad o £40k yn gyfuniad o nifer o gyllidebau.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y gellid trosglwyddo'r toiledau cyhoeddus ym Maesteg i'r Cyngor Tref pan fo Awen yn gyfrifol am reoli Neuadd y Dref. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor fod y Cyngor yn talu costau cynnal a chadw'r cyfleusterau ac nad Awen sy'n gyfrifol am hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedau) wrth y Pwyllgor fod y cynigion ailddatblygu ar gyfer Neuadd y Dref Maesteg yn cynnwys darparu cyfleusterau newydd. Dywedodd y Pennaeth Adfywio. Datblygu a Gwasanaethau Eiddo wrth y Pwyllgor na fyddai'r toiledau presennol ar gael tra bo'r gwaith ailddatblygu'n mynd rhagddo. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor y byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ynghylch y posibilrwydd o gau'r toiledau cyhoeddus. Nododd fod potensial i ddarpariaeth gael ei gwneud drwy'r cynllun cyfforddusrwydd (comfort scheme) fel dewis amgen i drosglwyddo cyfleusterau i Gynghorau Tref a Chymuned. Mynegodd y Pwyllgor bryder fod diddymu £40k yn groes i'r syniad bod y Gyfarwyddiaeth yn annog trosglwyddo asedau. Roedd yn bryderus hefyd y byddai'n rhaid i Gynghorau Tref a Chymuned gynyddu eu harchebiant er mwyn hwyluso'r gwaith o drosglwyddo cyfleusterau. At hyn, ni fyddai gan Gynghorau Tref a Chymuned y staff na'r arbenigedd i ddelio â gwasanaethau gan y Cyngor a byddai hyn felly yn niweidiol i hynt achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedau) y gallai roi baich posibl ar Gynghorau Tref a Chymuned, ond mae Llywodraeth Cymru yn gweld bod gan Gynghorau Cymuned rôl ehangach i'w chwarae, yn sgil rhanbartholi gwasanaethau. Mynegwyd pryder y byddai trosglwyddo cyfleusterau i Gynghorau Tref a Chymuned yn arwain at nifer lai o bobl yn talu am gynnal a chadw cyfleusterau.

Roedd y Pwyllgor yn poeni bod Cyfarwyddiaethau eraill yn cael arian cyfalaf y mae'r swm yn anghymesur fwy na'r hyn a gaiff y Gyfarwyddiaeth Cymunedau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedau) wrth y Pwyllgor ei bod hi'n costio £168k y flwyddyn i gynnal a chadw toiledau cyhoeddus allan o gyfanswm o £250m o gyllideb y Cyngor. Dywedodd fod gofyniad yn y Strategaeth Ariannol

Tymor Canolig ar y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i arbed £100k ar doiledau cyhoeddus sef y rheswm am yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Cwestiynodd y Pwyllgor y swm o £2m a drosglwyddwyd i'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau ar gyfer y swyddogaeth Landlordiaid Corfforaethol, pan ddangoswyd ef fel toriad o £0.5m yn y gyllideb refeniw. Dywedodd y Pennaeth Adfywio, Datblygu a Gwasanaethau Eiddo wrth y Pwyllgor fod y swyddogaeth Landlordiaid Corfforaethol wedi'i throsglwyddo i'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau a bod y gyllideb yn adlewyrchu'r newid hwnnw ac nad yw'n faes twf. Dywedodd fod y £0.5m yn cynrychioli'r swm y mae'n rhaid i'r swyddogaeth Landlordiaid Corfforaethol ei arbed a bod ei statws yn ambr ar hyn o bryd. Dywedodd wrth y Pwyllgor am y symud tuag at gynnal a chadw mwy cylchol yn hytrach na chynnal a chadw adweithiol. Soniodd hefyd fod cryn amser wedi bod ers i'r gwasanaeth gael ei adolygu ddiwethaf.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y buddsoddiad mawr o £20m sydd ei angen yn y rhwydwaith priffyrdd dros y 10 mlynedd nesaf i gynnal y safonau presennol pan oedd y Cyngor yn cynnig hefyd y dylid buddsoddi swm tebyg o'r gyllideb mewn gwasanaethau TGCh. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedau) fod £2m o arian y flwyddyn ar gyfer cynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd wedi cael ei gynnwys dros dro yn y rhaglen gyfalaf. Cwestiynodd y Pwyllgor hefyd y buddsoddiad cyfalaf arfaethedig o £10m ar gyfer cyflwyno rhagor o oleuadau stryd LED.   Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor mai'r bwriad oedd defnyddio goleuadau LED drwy'r Fwrdeistref Sirol gyfan. Byddai'n costio £55k i sicrhau bod y cyflenwad trydan yn cydymffurfio ac yn ddiogel o ganlyniad i'r drefn arolygu a phrofi sydd ar waith. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod gan 20,000 o golofnau goleuadau oleuadau LED yn barod, a bod 8,000 o golofnau goleuadau i'w gwneud o hyd. Ni fyddai LEDs newydd yn cael eu cyflwyno hyd nes byddai arian allanol wedi cael ei sicrhau, pan fyddai rhaglen adnewyddu colofnau goleuadau yn cael ei hystyried.

Gofynnodd y Pwyllgor am y diweddaraf ar ad-drefnu Raven's Court.   Dywedodd y Pennaeth Adfywio, Datblygu a Gwasanaethau Eiddo wrth y Pwyllgor mai'r bwriad oedd ildio cymaint o'r adeilad â phosibl. Serch hyn, gellid dod â gwasanaethau eraill i mewn i'r adeilad o fannau eraill yn y Cyngor, sy'n golygu na fyddai angen gwagio'r adeilad gan arbed costau prydlesu/rhentu mewn man arall. Byddai'n bosibl prydlesu un adain o'r adeilad o hyd neu ei defnyddio fel lleoliad posibl y Ganolfan Diogelu Amlasiantaeth (MASH) arfaethedig.

Diolchodd y Pwyllgor i'r gwahoddedigion am eu cyfraniadau.

**<u>Casgliadau</u>**

1. Mewn perthynas â'r toriadau a gynigiwyd yng nghyllideb y Gyfarwyddiaeth Cymunedau ar gyfer 18-19, nid yw'r Pwyllgor, yn y bôn, yn cytuno â'r toriadau hyn yn eu cyfanrwydd. Yn hytrach, argymhellodd y dylid ystyried gwneud toriadau yng nghyllidebau'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gyfarwyddiaeth Addysg, sydd â'r ddwy gyllideb uchaf yn yr Awdurdod.

2. Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch y cynigion i derfynu gwasanaethau bysiau â chymhorthdal (COM 27), yn enwedig o gofio bod cwmnïau bysiau eu hunain yn cwtogi eu llwybrau eu hunain ac nad oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal eto ar gynigion yr Awdurdod ei hun ar gyfer toriadau mewn gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor yn argymell felly:

a) Cyn unrhyw benderfyniad ar y llwybrau sy'n cael eu cwtogi, dylai'r Cabinet hefyd gael gwybodaeth am ba lwybrau y mae cwmnïau bysiau eu hunain yn eu cwtogi er mwyn deall effaith gyfan yr holl lwybrau fydd yn cael eu colli;

b) Na fydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch y toriadau arfaethedig yng nghyllideb y gwasanaeth hyd nes bydd ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gwblhau;

c) Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am i'r swyddogaeth Graffu gael cyfle i dderbyn eitem sy'n gysylltiedig â'r cynigion a chanlyniad yr Ymgynghoriad ar gyfer terfynu gwasanaethau bysiau â chymhorthdal fel eitem cyn penderfyniad, cyn mynd i'r Cabinet.

3. O ran COM1, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud i ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer toiledau cyhoeddus fel y cynllun cyfforddusrwydd (comfort scheme) a'r posibilrwydd y gallai Cynghorau Tref a Chymuned fod yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, o gofio ffocws yr Awdurdod hwn i wella ein trefi ac annog y cyhoedd yn ôl i mewn iddynt, ynghyd â'r farn bod toiledau cyhoeddus yn hanfodol, mae'r Pwyllgor yn argymell na fydd toriadau'n cael eu gwneud i doiledau cyhoeddus yn yr Awdurdod Lleol.

4. Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar yr arbedion rheoli a gynigir gan y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a'r ffaith nad yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu mewn Cyfarwyddiaethau eraill. Er mwyn rhannu baich y toriadau mewn cyllidebau, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Cyfarwyddiaethau eraill ystyried gwneud arbedion effeithlonrwydd yn eu swyddogaeth reoli hefyd.

*5.* Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Awdurdod ystyried y posibilrwydd o greu refeniw drwy ddatblygu yn hytrach na gwerthu tir y cynghorau. Un awgrym a gynigiwyd oedd yr angen i gael mwy o eiddo ar gyfer busnesau bach yn y Fwrdeistref Sirol. Mae aelodau hefyd yn argymell ystyried pa waith datblygu tir a chynhyrchu incwm y mae Awdurdodau Lleol eraill wedi'i gyflawni er mwyn penderfynu pa feysydd sydd wedi bod yn llwyddiannus.

6. Mae'r Pwyllgor yn argymell peidio â thorri'r £40,000 a gynigir ar gyfer cefnogaeth trydydd sector yng nghyswllt Trosglwyddo Asedau Cymunedol, o gofio'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar gyflawni'r arbedion sy'n ofynnol o Drosglwyddo Asedau Cymunedol.

7. Nid oedd y Pwyllgor yn cefnogi'r eitemau twf dewisol o £500,000 i ysgolion er mwyn gwneud iawn am y gostyngiad yng Ngrant Gwella Addysg Llywodraeth Cymru a'r £65,000 a gynigiwyd ar gyfer yr 'Ŵyl Ddysgu'. Ar adeg o galedu a thoriadau cyllidebol difrifol, mae'r Pwyllgor o'r farn na ddylid cefnogi'r cynnydd hwn yn y gyllideb ac y gellid gwario'r arian yn well mewn man arall yn yr Awdurdod. Os bydd yr 'Ŵyl Ddysgu' yn mynd yn ei blaen o hyd, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ei chynnal yn ystod gwyliau'r ysgol er mwyn arbed costau darparu athrawon.

8. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Awdurdod ystyried ymhellach a oes mwy o gyfleoedd i gydweithio mewn Gwasanaethau Cymunedol er mwyn cyflawni arbedion a gwella'r gwasanaethau hyn ar yr un pryd.

9. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Awdurdod ystyried y gwasanaethau a ddarperir gan y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE) i helpu gyda chynaliadwyedd Gwasanaethau Cymunedol a'r gwaith o'u cynllunio yn y tymor hwy.

10. Roedd y Pwyllgor yn poeni bod yr Awdurdod yn parhau i droi at y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i wneud rhagor o doriadau yn ei chyllideb sy'n anghymesur â'r rheini a wneir mewn Cyfarwyddiaethau eraill. Er enghraifft, dywedwyd bod gofyn i'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau dorri 6% o'i chyllideb ei hun yn 2018-19 tra bo gofyn i Gyfarwyddiaethau eraill, sy'n dal tua 2/3 o gyfanswm cyllideb y Cyngor, dorri rhwng 0.5 a 0.6% yn unig o'u cyllidebau nhw. Mae aelodau'n deall bod hyn am nad yw'r gwasanaethau yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Fodd bynnag, holodd y Pwyllgor a oedd yr Awdurdod yn ystyried beth oedd blaenoriaethau'r cyhoedd. O gofio hyn, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Awdurdod ailystyried ei flaenoriaethau corfforaethol i ystyried yr 'elfen gyhoeddus' a newid Gwasanaethau Cymunedol i fod yn flaenoriaeth Gorfforaethol.

11. Er nad yw'n awyddus i dorri'r gyllideb Addysg ac Ysgolion na'r gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chyllidebau mor fawr, mae'r Pwyllgor yn teimlo bod yn rhaid gwneud arbedion effeithlonrwydd yn y Cyfarwyddiaethau hyn a allai helpu i rannu baich toriadau cyllidebol yr Awdurdod. Felly, lle bo gan y Pwyllgor bryderon ynghylch toriadau yn y gyllideb Cymunedau, fel y rhai a nodir uchod (toiledau cyhoeddus a Throsglwyddo Asedau Cymunedol), argymhellir y dylai'r Awdurdod droi at y Cyfarwyddiaethau eraill hyn i wneud y toriadau a gynigir.

## <u>Sylwadau eraill</u>

Roedd y Pwyllgor yn poeni am gost ragweledig cynnal a chadw'r Priffyrdd dros y degawd nesaf i'w safonau presennol, sef £20m, ac o ble fyddai'r arian hwn yn dod. Yn ogystal â hyn, cwestiynodd y Pwyllgor y swm tebyg o £10-£20m ar gyfer TGCh yn y degawd nesaf. Gofynnodd aelodau i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol holi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth ynghylch cost ragweledig TGCh o gymharu â chyd-destun pwysau cyllidebol arall yn y dyfodol fel y pwysau a wynebir gan yr adran Priffyrdd.

**Craffu yn y Dyfodol**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r swyddogaeth Graffu ystyried eitem yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r hyn y mae Awdurdodau Lleol eraill yn ei wneud i ymateb i'r bwlch mewn darpariaeth ym maes Gwasanaethau Cymunedol.

Gofynnodd y Pwyllgor am i adolygiad o'r bagiau AHP gael ei ystyried pan fydd y swyddogaeth Graffu yn ailystyried 'Gwastraff' ymhen rhyw 12 mis i gynnwys yr effaith ariannol o gymharu â'r effaith amgylcheddol. gainst environmental impact.

19. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:50